

## Tasg 2

# Dydd Sadwrn Siocled

1. Ydych chi'n cofio?

Beth sy'n digwydd yn yr wythnos siocled? Ysgrifennwch yma. Os dydych chi ddim yn cofio – darllenwch y darn eto.

2. Mewn grŵp, rydych chi'n mynd i gynllunio Dydd Sadwrn Siocled.

Rhaid i bawb ysgrifennu UN syniad ar post-it, e.e.


Dw i eisiau  
sesiwn bwyta  
siocled.

Beth am gael  
sesiwn coginio  
gyda siocled?

Dw i eisiau ...  
Beth am gael ...?  
Beth am gael sesiwn blasu siocled yn ...?  
Beth am fynd i ...?

Mae ... yn syniad da.  
Mae sesiwn blasu ... yn syniad da achos ...  
Dw i'n meddwl bod ... yn syniad da achos ...

Na, dw i ddim yn hoffi'r syniad achos ...  
Mae'n well gen i ...  
Mae'n well gyda fi ...



Rhaid dewis y 3 syniad gorau:

- un ar gyfer bore Sadwrn
- un ar gyfer prynhawn Sadwrn
- un ar gyfer nos Sadwrn.

3. Nawr, meddyliwch am y manylion, e.e.

- beth
- ble
- pryd
- beth fydd yn digwydd
- y pris.

4. Yna, rhaid dweud wrth grŵp arall am y Dydd Sadwrn Siocled.  
Beth mae'r grŵp yna'n feddwl o'r Dydd Sadwrn Siocled?

5. Ysgrifennwch ddarn am y Dydd Sadwrn Siocled ar gyfer papur lleol. Cofiwch ddweud:

- beth
- ble
- pryd
- beth fydd yn digwydd
- y pris.

Hefyd, perswadiwch bobl i ddod. Felly, defnyddiwch:

- ansoddeiriau da
- cwestiynau
- gorchmynion

**e.e. Ydych chi'n hoffi siocled? Wel dewch i ... achos ...**  
**Ydych chi'n mwynhau blasu siocled? Wel cofiwch am y Dydd Sadwrn Siocled achos ...**

Geirfa	
digwydd	to happen
cofio	to remember
cynllunio	to plan
sesiwn	session
manylion	details
ar gyfer	for
leleol	local
gochmynion	commands